# Bythynnod: Ffitiadau ac Addurniadau

# Cottages: Fittings and Decoration




Chwith: Arferai ffyrnau clai fod yn gyffredin ym Mro Morgannwg. Caent eu cynhyrchu yng ngogledd Dynaint a'u hallforio o'r ail ganrif ar bymtheg tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ym Maendy-ganol, Llanfleiddan, y mae'r enghraifft hon.

Left: Clay bake-ovens were common in the Vale of Glamorgan. Made in north Devon, they were exported from the seventeenth to the mid-nineteenth century. This example is at Maendy-ganol, Llanblethian.

Gan ddibynnu ar eu lleoliad a chyfoeth eu preswylwyr, yr oedd gan fythynnod wahanol fathau o loriau. Yn aml, byddai'r lloriau'n elfennol iawn ac wedi'u gwneud o bridd neu fwd. Er bod defnyddio cerrig i wneud lloriau yn llai cyffredin nag adeiladu â cherrig, llawr o gerrig palmant oedd i lawer o dai'r canolbarth. Ceid hefyd wahanol fathau o leoedd tân, ffyrnau, paredau, llofftydd ac addurniadau mewnol.

Cottages, depending on where they were and the means of their residents, had different kinds of floors. Floors were often very basic, made of earth or mud; the use of stone for flooring was less widespread than building in stone, but many houses in mid Wales had floors of pitched stone. There were also different types of fireplaces, ovens, partitions, lofts and interior decoration.





Uchod: Pared bangorwaith yn Wigwen-fach, Llanddewi Aber-arth, Sir Aberteifi. Diben cynnwys y pared oedd rhannu'r bwthyn yn ddwy. Yn ddiweddarach, torrwyd twll yn y pared i greu drws rhwng y ddwy ystafell.

Above: A wattle partition at Wigwen-fach, Llanddewi Aber-arth, Cardiganshire. The partition was inserted to divide a cottage in two, and was later broken through to create a doorway between the two divisions.




Uchod: Ceid mentyll simneiau o fasgedwaith mewn bythynnod â waliau carreg hefyd. Dyma enghraifft ohonynt sydd wedi'i diogelu'n dda, yn Wigwen-fach, Llanddewi Aber-arth, Sir Aberteifi.

Above: Wickerwork chimney-hoods were also found in stone-walled cottages, as this well-preserved example shows at Wigwen-fach, Llanddewi Aber-arth, Cardiganshire.




Chwith: Llawr o gerrig ar eu cant sydd wedi'i ddiogelu'n dda mewn bwthyn unllawr o gerrig yn Hen Felin, Cwm Mabws, Llanrhystud, Sir Aberteifi.

Left: A beautiful-preserved pitched-stone floor in a single-storey stone-walled cottage at Hen Felin, Cwm Mabws, Llanrhystud, Cardiganshire.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*

*Cysylltwch â:* CBHC, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
*Contact:* RCAHMW, Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn:* 01970 621200
*Telephone:* 01970 621200

*Gwefan:* www.cbhc.gov.uk
*Website:* www.rcahmw.gov.uk